

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Rheolwr Tir ac Eiddo

Hybrid / Llawn-amser / Teithio ledled Cymru

Dyddiad cau: Hanner dydd 23 Tachwedd 2026

Cyfeirnod: TGCLPM

Cynnwys

Croeso gan Trydan Gwyrdd Cymru 3
Amdanom ni 4
Y rôl 5
Amserlen ddangosol 9
Sut i ymgeisio 9
Rhagor o wybodaeth am y rôl 10
Cydraddoldeb ac amrywiaeth 10
Y Gymraeg 10
Caniatâd data 11
Ffurflen monitro amrywiaeth 11

Croeso gan Trydan Gwyrdd Cymru



Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn y swydd Rheolwr Tir ac Eiddo yn Trydan Gwyrdd Cymru (Trydan). Yn **Trydan Gwyrdd Cymru**, rydym yn cyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy a fydd yn helpu i bweru Cymru am genedlaethau i ddod. Fel datblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo cyhoeddus i Lywodraeth Cymru, ein cenhadaeth yw cynyddu'r gwerth y mae Cymru'n ei dderbyn o ddatblygu ynni adnewyddadwy gan sicrhau bod cymunedau a natur yn elwa gyda'i gilydd.

Gan weithio ar draws Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru a'r ystâd gyhoeddus ehangach, rydym yn datblygu portffolio o brosiectau ynni adnewyddadwy a fydd yn cyfrannu at ddyfodol glanach, mwy diogel a mwy llewyrchus i Gymru. Gan dynnu ar brofiad helaeth a gweithio ar y cyd â chymunedau a rhanddeiliaid, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod manteision ynni adnewyddadwy yn cael eu cadw yng Nghymru a'u buddsoddi'n ôl i wella bywydau pobl.

Rydym nawr yn chwilio am **Reolwr Tir ac Eiddo** profiadol i chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r weledigaeth hon.

Mae hwn yn gyfle unigryw i ymuno â sefydliad sy'n tyfu mewn cyfnod cyffrous o'i ddatblygiad.

Byddwch yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Datblygu, ac yn arwain a chydlynu gweithgareddau tir ac eiddo ar draws portffolio o brosiectau ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Byddwch yn gweithio'n agos gyda Rheolwyr Prosiectau, arbenigwyr technegol a chynghorwyr allanol i sicrhau a rheoli'r hawliau tir sydd eu hangen i symud prosiectau ymlaen o'r datblygiad cynnar hyd at yr adeiladu a'r gweithredu.

Gan ganolbwyntio i ddechrau ar ddatblygiadau gwynt ar y tir ar raddfa fawr, gall y rôl hefyd gefnogi technolegau ynni solar a thechnolegau ynni adnewyddadwy eraill wrth i'n portffolio ehangu.

Byddwch yn dod yn arbenigwr blaenllaw Trydan Gwyrdd Cymru ar faterion tir, gan feithrin perthnasoedd cynhyrchiol â thirfeddianwyr, deiliaid, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan sicrhau bod risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â thir yn cael eu rheoli'n effeithiol drwy gydol cylch oes y prosiect.

Richard Evans
Prif Swyddog Gweithredol

Amdanom ni

Cefndir

Sefydlwyd Trydan ym mis Hydref 2023, fel cwmni sydd wedi'i gyfyngu gan gyfranddaliadau ac sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru. Ei amcan yw cyflymu datblygiad prosiectau ynni adnewyddadwy ar Ystâd Gyhoeddus Cymru a chynyddu'r gwerth i Gymru o'r gweithgarwch hwn – rhywbeth sy'n cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ac amcanion Gweinidogol.

Prif amcan strategol y cwmni yw gwireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru drwy ddarparu un gigawat o ynni adnewyddadwy newydd sy'n eiddo lleol erbyn 2040. Bydd model cyflawni Trydan yn sicrhau bod gwerth ariannol y prosiectau hyn yn aros yng Nghymru, a bod eu hallbynnau – yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol – yn cyfrannu at sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i bobl Cymru.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i greu un cwmni ynni cyhoeddus cyfunol ar gyfer Cymru. Byddai'r cwmni arfaethedig yn eiddo cyhoeddus, a byddai'n dod â swyddogaethau cyflawni ynni presennol yng Nghymru ynghyd, gan eu cryfhau ac adeiladu arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys Trydan, Ynni Cymru, a swyddogaethau cymorth ynni perthnasol a ddarperir ar hyn o bryd drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd cylch gwaith presennol Trydan – sef cyflawni cyfres o ddatblygiadau gwynt ac ynni solar ar raddfa cyfleustodau ar Ystad Gyhoeddus Cymru – yn parhau i fod yn swyddogaeth graidd i'r cwmni ynni cyfunol.

Ein nod

Ein nod yw datgloi potensial ynni adnewyddadwy Cymru, a sicrhau buddion i'n cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi – er budd pawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw, yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn gwneud hyn drwy ragoriaeth wrth gyflawni, arweinyddiaeth gyfrifol a chydweithio rhagweithiol.

Lleoliad

Bydd y cwmni'n gweithredu gan ddefnyddio model hybrid, lle bydd staff yn treulio cyfran o'u hamser yn gweithio o gartref ac ym Mhrif Swyddfa'r Cwmni ym Merthyr Tudful. Bydd angen i'r unigolyn yn y swydd fod yn hyblyg, gan y bydd y swydd yn golygu teithio o fewn y wlad.

Rhagor o wybodaeth am Trydan Gwyrdd Cymru

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y cwmni: Hafan - Trydan Gwyrdd Cymru.

Y rôl

Diben y swydd

Bydd y Rheolwr Tir ac Eiddo yn arwain a chydlynu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â thir ar draws portffolio prosiectau ynni adnewyddadwy Trydan Gwyrdd Cymru yng Nghymru. Gan adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Datblygu a gweithio'n agos gyda'r Rheolwyr Prosiect a'r Arweinydd Technegol, bydd deiliad y swydd yn sicrhau ac yn rheoli'r hawliau tir (gan gynnwys cytundeb Opsiwn ar gyfer Prydles ffermydd gwynt, mynediad a hawddfreintiau grid) a'r perthnasoedd â rhanddeiliaid sydd eu hangen i symud prosiectau ymlaen o'r datblygiad cynnar hyd at ganiatâd, adeiladu a gweithredu.

Bydd y rôl yn canolbwyntio i ddechrau ar brosiectau gwynt ar y tir ar raddfa fawr, gyda'r potensial i gefnogi technolegau ynni solar a thechnolegau ynni adnewyddadwy eraill wrth i'r portffolio ddatblygu. Disgwylir i lawer o brosiectau gynnwys tir a reolir yn gyhoeddus, coedwigaeth, tir comin a buddiannau trydydd parti, gan olygu bod angen dull ymarferol, cydweithredol ac ymwybodol o fasnach.

Bydd deiliad y swydd yn gweithredu fel prif bwynt cyswllt Trydan ar gyfer materion tir, gan reoli asiantau tir allanol, cyfreithwyr a chynghorwyr eraill. Byddant yn sicrhau bod risgiau tir, costau, dibyniaethau a gofynion rhaglenni'n cael eu deall yn gynnar a'u rheoli'n effeithiol, gan gynnal perthnasoedd parchus ac adeiladol â thirfeddianwyr, deiliaid, cominwyr a rhanddeiliaid eraill.

Prif Gyfrifoldebau

Eich prif dasgau a chyfrifoldebau:

- Datblygu a chynnal strategaeth tir gymesur ar gyfer pob prosiect, wedi'i halinio â'r rhaglenni datblygu, caniatâd, caffael ac adeiladu ehangach.
- Nodi'r hawliau tir, trefniadau mynediad a chytundebau sy'n ofynnol ar gyfer seilwaith y prosiect, arolygon, cysylltiadau grid, llwybrau mynediad llwyth annormal, lliniaru amgylcheddol a gwaith cysylltiedig.
- Arwain trafodaethau ar gyfer opsiynau, prydlesi, hawddfreintiau, hawliau ffordd, trwyddedau, cytundebau mynediad a threfniadau tir eraill, gan weithio gyda chynghorwyr cyfreithiol a phroffesiynol yn ôl yr angen.
- Meithrin a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda thirfeddianwyr, deiliaid, tenantiaid, cominwyr, rheolwyr tir a chyrff cynrychioliadol, gan sicrhau bod y cyfathrebu'n brydlon, yn glir ac yn barchus.
- Trefnu mynediad ar gyfer arolygon amgylcheddol, peirianneg, geodechnegol, adnoddau gwynt ac arolygon eraill, gan gynnwys gwaith ymwthiol lle bo angen.
- Penodi, briffio a rheoli asiantau tir allanol, cyfreithwyr a chynghorwyr arbenigol, gan gynnwys monitro ansawdd, cost, rhaglen a pherfformiad.
- Cynnal cofnodion cywir o ran perchnogaeth tir, cyswllt, cytundeb, talu a mynediad, wedi'u cefnogi gan systemau mapio a rheoli dogfennau priodol.
- Rhoi cyngor clir i Reolwyr Prosiect a'r tîm prosiect ehangach ar risgiau, cyfleoedd, dibyniaethau, costau a goblygiadau rhaglenni tir.
- Paratoi, rheoli ac adrodd ar gyllidebau tir, ymrwymiadau, rhagolygon a chostau iawndal mewn cydweithrediad â chydweithwyr prosiectau a chyllid.
- Helpu i ddylunio llwybrau a safleoedd trwy nodi cyfyngiadau a chyfleoedd tir a chyfrannu at adolygiadau dylunio ac asesiadau opsiynau.
- Cydlynu mewnbynnau tir i ddogfennaeth cynllunio a Chaniatâd Seilwaith, ymgynghori, asesiad amgylcheddol ac unrhyw broses gaffael orfodol.
- Cefnogi ystyriaeth o faterion tir cyffredin, coedwigaeth, rheoli tir amaethyddol a gwledig, gan dynnu ar gyngor arbenigol lle bo angen.
- Sicrhau bod gweithgareddau tir yn cydymffurfio â pholisïau Trydan, gofynion llywodraethu, cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, rhwymedigaethau diogelu data a safonau proffesiynol y cytunwyd arnynt.
- Cynrychioli Trydan mewn cyfarfodydd, ymweliadau safle, trafodaethau, ymgynghoriadau a digwyddiadau rhanddeiliaid ledled Cymru.
- Darparu cefnogaeth ad hoc ar gyfer tir, masnachol a datblygu prosiectau ar draws y portffolio ehangach.

Manyleb y person

Sgiliau a phrofiad angenrheidiol:

- Addysg hyd at lefel gradd mewn disgyblaeth berthnasol, neu'n gallu dangos profiad proffesiynol cyfatebol mewn tir, arolygu gwledig, rheoli ystadau, datblygu eiddo neu seilwaith.
- Aelodaeth broffesiynol neu gymhwyster gyda Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CAAV), neu gorff proffesiynol cymharol, neu gynnydd y gellir ei ddangos tuag at aelodaeth.
- Profiad ymarferol sylweddol o sicrhau a rheoli hawliau tir ar gyfer seilwaith, cyfleustodau, ynni adnewyddadwy neu brosiectau datblygu cymhleth tebyg.
- Dealltwriaeth gref o arferion perchnogaeth tir, meddiannaeth, rheoli tir amaethyddol a gwledig yng Nghymru neu'r DU ehangach.
- Profiad o negodi cytundebau masnachol gyda thirfeddianwyr, deiliaid a chynghorwyr proffesiynol.
- Gwybodaeth am Benawdau Telerau, strwythurau opsiwn a phrydles, hawddfreintiau, hawliau ffordd, trwyddedau ac egwyddorion iawndal tir.
- Profiad o reoli asiantau tir allanol, cyfreithwyr neu gyflenwyr trydydd parti eraill.
- Y gallu i ddehongli cynlluniau, gwybodaeth am deitlau a data cyfeirio tir, a gweithio'n effeithiol gyda GIS ac allbynnau mapio prosiectau.
- Ymwybyddiaeth fasnachol gref, gan gynnwys profiad o reoli cyllidebau, rhagweld, rheoli costau a pherfformiad cyflenwyr.
- Sgiliau rheoli rhanddeiliaid a chyfathrebu rhagorol, gyda'r hyder i ymdrin â thrafodaethau cymhleth neu sensitif yn broffesiynol.
- Y gallu i nodi risgiau a dibyniaethau tir, datblygu atebion ymarferol a chyfleu argymhellion yn glir i dimau prosiectau a chydweithwyr uwch.
- Sgiliau trefnu profedig, gyda'r gallu i reoli nifer o brosiectau, blaenoriaethau, cofnodion a therfynau amser gyda goruchwyliaeth gyfyngedig.
- Parodrwydd a gallu i deithio'n rheolaidd ledled Cymru, gan gynnwys i safleoedd gwledig a chyfarfodydd â rhanddeiliaid tir.
- Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).
- Trwydded yrru lawn y DU.

Sgiliau a phrofiad dymunol:

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig neu o leiaf barodrwydd i ddysgu.
- Profiad o brosiectau seilwaith ynni gwynt ar y tir, solar, cysylltiad grid neu brosiectau seilwaith ynni eraill.
- Gwybodaeth am brosesau cynllunio a Chaniatâd Seilwaith Cymru a'r gofynion tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith mawr.
- Profiad o faterion tir comin, coedwigaeth, ystad gyhoeddus, tenantiaeth amaethyddol neu gaffael gorfodol.
- Profiad o brosiectau sy'n cynnwys llinellau uwchben, ceblau tanddaearol, is-orsafoedd, llwybrau mynediad llwyth annormal neu dir lliniaru oddi ar y safle.

- Profiad o systemau cyfeirio tir, cronfeydd data perchnogaeth, Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) neu lwyfannau rheoli tir digidol.
- Profiad o weithio'n adeiladol gyda chyrff cyhoeddus, sefydliadau statudol, cynrychiolwyr cymunedol a grwpiau rhanddeiliaid gwledig.

Telerau ac amodau'r penodiad

- Cyflog: Cystadleuol
- Math o Swydd: Parhaol
- Oriau'r wythnos: Llawn-amser – 37 awr yr wythnos
- Gwyliau Blynyddol: 28 diwrnod, yn codi i 29 diwrnod ar ôl dwy flynedd o wasanaeth, ac i 30 diwrnod ar ôl tair blynedd o wasanaeth
- Gwyliau Cyhoeddus: 8 diwrnod y flwyddyn

Buddion eraill

Cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig
Gweithio hyblyg
Cynllun aberthu cyflog ar gyfer cerbydau trydan

Amserlen ddangosol

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn hanner dydd ar 23 Tachwedd 2026 fan bellaf. Bydd yr ymgeiswyr hynny a ddewisir ar gyfer cyfweliad yn cael gwybod drwy e-bost ar 27 Tachwedd 2026. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau uchod yn cael eu hystyried. Os cewch eich dewis ar gyfer cyfweliad, disgwylir i'r rhain gael eu cynnal drwy Teams yn ystod prynhawniau 2 a 3 Rhagfyr.

Sut i ymgeisio

I ymgeisio am y swydd hon, darparwch y canlynol:

1. CV cynhwysfawr sy'n amlinellu hanes eich gyrfa, gan gynnwys prif gyfrifoldebau a chyflawniadau, ynghyd â manylion eich pecyn cyflog a buddion presennol.
2. Datganiad ategol ar ffurf llythyr eglurhaol, heb fod yn hirach na dwy dudalen A4, sy'n egluro sut rydych yn credu bod eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r prif gyfrifoldebau a'r gofynion ym manyleb y person ar gyfer y swydd. Sylwch fod y llythyr eglurhaol yn rhan bwysig o'ch cais.
3. Manylion dau eirda proffesiynol, ynghyd â datganiad byr yn nodi eu rôl a pha mor hir maent wedi eich adnabod; disgwylir i un ohonynt fod yn gyflogwr presennol neu'ch cyflogwr diwethaf. Ni chysylltir â'r unigolion a enwir fel geirda heb eich caniatâd ymlaen llaw.
4. Ffurflen monitro amrywiaeth wedi'i llenwi.

Ar ôl cwblhau eich cais, anfonwch ef at y cyfeiriad e-bost canlynol: swyddi@TrydanGwyrddCymru.wales

Rhagor o wybodaeth am y rôl

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y broses benodi, os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch, neu os hoffech gael trafodaeth anffurfiol a chyfrinachol, anfonwch e-bost at swyddi@TrydanGwyrddCymru.wales i ofyn am alwad, a byddwn yn falch o gysylltu â chi. Byddwn yn parchu preifatrwydd unrhyw gyswllt cychwynnol neu fynegiant o ddiddordeb yn y rôl hon, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol i bawb. Rydym yn annog ceisiadau, yn enwedig, gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Nid ydym yn gwahaniaethu ar sail oedran, hil, crefydd, lliw, tarddiad cenedlaethol, rhywedd, statws priodasol (gan gynnwys priodas o'r un rhyw neu bartneriaeth sifil), cyfeiriadedd rhywiol, nac anabledd.

Y Gymraeg

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, lle defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn rheolaidd yn ein bywydau bob dydd ac yn ein gweithleoedd. Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae mesurau ar waith i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gellir cyflwyno ceisiadau am unrhyw swydd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd ymgeiswyr sy'n cyflwyno eu ceisiadau yn y Gymraeg yn cael eu hasesu ar sail gyfartal â cheisiadau a gyflwynir yn y Saesneg.

Caniatâd data

Byddwn yn prosesu'r data a rowch i ni wrth wneud cais am y rôl hon, yn unol â'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dasg hon, sy'n cael ei gwneud er budd y cyhoedd. Byddwn hefyd yn rhannu'r data gydag unrhyw brosesyddion data trydydd parti sy'n gweithio ar ein rhan i ddarparu'r gwasanaeth recriwtio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.trydangwyrddcymru.cymru/preifatrwydd/

Ffurflen monitro amrywiaeth

Mae Trydan Gwyrdd Cymru wedi ymrwymo i werthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei weithlu. Er mwyn sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni'n llawn, mae'n hanfodol ein bod yn monitro ein gweithdrefnau recriwtio a dethol. Felly, hoffem i chi lenwi'r holiadur y ceir dolen iddo yn yr hysbyseb. – https://www.trydangwyrddcymru.cymru/swyddi/rheolwr-tir-ac-eiddo/

Diben a Manteision

Mae angen i ni ddarganfod a yw ein polisi yn gweithio'n ymarferol, a sicrhau nad oes gwahaniaethu yn y ffordd rydym yn penodi ac yn dyrchafu staff. Pwrpas monitro yw nodi tueddiadau sy'n dynodi problemau, er mwyn i ni allu eu cywiro a darparu proses benodi sy'n decach ac yn fwy effeithiol i bob ymgeisydd.

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth rydw i'n ei rhoi?

• Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn **hollol gyfrinachol** ac ni fydd yn effeithio ar eich cais mewn unrhyw ffordd.
• Bydd y data yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu adroddiadau ystadegol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o ffigurau dienw, y gallwn fonitro nifer ein hymgeiswyr a chanlyniadau ein prosesau recriwtio a dethol drwyddynt.
• Dim ond y rhai sy'n monitro hysbysebu swyddi fydd â mynediad at y data. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio'n gwbl ddienw, ond mae enwau wedi'u cynnwys ar ffurflenni i alluogi croeswirio rhwng y ffurflenni a'r gwaith papur i'w wneud gan ein gweithwyr proffesiynol recriwtio.
• **Ni** fydd staff sy'n ymwneud â didoli a chyfweld ar gyfer y swydd yn gweld eich holiadur.
• Ni fydd y wybodaeth a gesglir yn arwain at system gwota nac yn cael ei defnyddio yn erbyn unrhyw grŵp penodol.

Ein helpu ni i'ch helpu chi

Gwerthfawrogwn eich cydweithrediad yn fawr; helpwch ni i wella cyfleoedd cyfartal. Anogwn **bob** ymgeisydd yn gryf i lenwi'r holiadur sydd wedi'i gysylltu, ei gadw ar wahân, a'i ddychwelyd ynghyd â'r rhannau eraill o ddogfennau eich cais.

Diolch am eich cydweithrediad.